

Coleg
Llandrillo



Academi Bêl-droed Llandrillo

Bydd yr Academi Bêl-droed yn rhoi cyfleoedd a chefnogaeth i chi feithrin eich sgiliau ac ehangu eich profiadau ar y maes chwarae, yn ogystal ag astudio ar gwrs academaidd llawn amser. Mae'r Academi Bêl-droed yn cynnwys chwaraewyr rhwng 16 ac 19 oed.

Mae chwaraewyr yr Academi'n ymarfer dridiau'r wythnos ac yn cymryd rhan yng ngemau Uwch Gynghrair Colegau Gogledd Orllewin Prydain ar ddydd Mercher. Gan fod y coleg yn un o ddim ond wyth a achredwyd yn Golegau Ffocws gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru, caiff y chwaraewyr gyfle i chwarae pêl-droed ar lefel uchel mewn gemau cystadleuol rheolaidd sy'n llawer mwy dwys a chorfforol nag unrhyw beth y maent wedi ei brofi yn yr ysgol neu ar y lefel Dan 16.

Derbynia myfyrwyr yr Academi gefnogaeth gan arbenigwyr ym maes gwyddor chwaraeon, yn cynnwys arbenigwr ar gryfder a chyflyru, cânt ddefnyddio system olrhain GPS a bydd gemau'n cael eu dadansoddi'n fanwl gan ddefnyddio technoleg fideo. Bydd hyfforddwyr sy'n meddu ar drwydded 'A' UEFA yn cynnal sesiynau technegol a thactegol er mwyn i chi chwarae'n well.

Mae pob aelod o'r Academi yn cael ei gofrestru ar gwrs academaidd llawn amser ac yn manteisio ar gyfleusterau hyfforddi rhagorol y coleg sy'n cynnwys cae 3G maint llawn, llifoleuadau a champfa codi pwysau.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, caiff sesiynau hyfforddi pêl-droed eu cyfuno â gwersi a darlithoedd. Mae hyn yn galluogi chwaraewyr i astudio yn ogystal â datblygu eu sgiliau pêl-droed i'r safon uchaf.

Caiff athletwyr eu croesawu i amgylchedd croesawgar ond heriol lle cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu, a lle caiff chwaraeon a rhaglenni academaidd eu teilwra i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae'r Academi'n rhan o Goleg sy'n frwd iawn ei gefnogaeth i chwaraeon a lle mae aelodau'r staff yn cymryd balchder proffesiynol yn y gwasanaethau chwaraeon a ddarperir ganddynt.

Cyfleoedd i fod yn sgwadiau Dan 18 a Dan 19 Colegau Cymru a Dan 18 Ysgolion Cymru.






Coleg
Llandrillo

Rhaglen Hyfforddi Academi Bêl-droed Llandrillo

<p>Dydd Llun: 3 pm – 4:30 pm Cryfder a chyflyru / Sgiliau technegol ar y cae</p>	<p>Mae'r sgwad yn cwblhau sesiwn codi pwysau yn y gampfa cyn symud i'r cae pêl-droed am ymarfer technegol/tactegol.</p>
<p>Dydd Mawrth: 3 pm – 4:30 pm Dadansoddi cyn/ar ôl gêm / Sgiliau Technegol a Thactegol ar y cae</p>	<p>Defnyddir sesiwn dydd Mawrth i weithio ar anghenion penodol y tîm mewn perthynas â gemau sydd i ddod. Fel arfer, mae'r sesiwn hon yn dechrau yn yr ystafell ddosbarth lle caiff meddalwedd dadansoddi fideo'r Academi ei ddefnyddio i edrych yn fanwl ar berfformiad a thynnu sylw at gryfderau a gwendidau.</p>
<p>Dydd Mercher Y Rhaglen Gemau (Gemau calendr)</p>	<p>Ddydd Mercher, cynhelir gêm cynghrair y colegau. Fel arfer, mae gemau cartref yn dechrau am 2pm. Weithiau, gall gemau oddi cartref olygu gorfod teithio ymhell, felly mae amseroedd gadael yn amrywio. Defnyddir system GPS i olrhain cynnydd yn nata corfforol a thactegol unigolion. Caiff gemau eu recordio er mwyn dadansoddi cynnydd technegol a thactegol y chwaraewyr.</p>
<p>Dydd Gwener : 2:30 pm – 4 pm Gemau gydag ychydig o chwaraewyr bob ochr, a sgiliau technegol</p>	<p>Ar ddydd Gwener, cynhelir sesiwn ymarfer technegol/tactegol ar y cae bob tywydd 3G, gan roi pwyslais ar ymarferion, sgiliau a gemau hwyliog.</p>





Cwrs	Lefel	Hyd	Gofynion Mynediad	Sut i wneud cais (dolenni wedi'u hatodi)
Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus	1	1 flwyddyn	Cwblhau'n llwyddiannus un o'r rhaglenni hyn: Hyfforddeiaeth, Cyn- alwedigaethol, Llwybrau Dysgu neu Cyswllt Ysgolion.	Cliciwch yma.
Diploma Cyntaf Lefel 2 BTEC mewn Chwaraeon <small>(ar amserlen myfyrwyr pêl-droed a myfyrwyr yr Academi)</small>	2	1 flwyddyn	4 TGAU gradd D neu uwch, yn cynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), neu gymhwyster Mynediad 3 / Lefel 1 Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Rhifedd a Chyfathrebu.	Cliciwch yma.
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff	3	2 flynedd	4 TGAU gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, a Mathemateg gradd D neu uwch.	Cliciwch yma.
Chwaraeon (hyfforddi, datblygu a ffitrwydd)	3	2 flynedd	4 TGAU gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, a Mathemateg gradd D neu uwch	Cliciwch yma.
Perfformio a Rhagoriaeth <small>(ar amserlen myfyrwyr pêl-droed a myfyrwyr yr Academi)</small>	3	2 flynedd	4 TGAU gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, a Mathemateg gradd D neu uwch Profiad perthnasol mewn diwydiant	Cliciwch yma.